**COFNODION CYNGOR BRO LLANGWM A DINMAEL 04.08.2020 – CYFARFOD ZOOM**

PRESENNOL - Sioned Jones, Gwyndaf Jones, Awel Hughes, Gwynfryn Jones (Cadeirydd) Glenydd Evans, Gwyn Davies, Rhian Ellis (Clerc) Peter Lewis

YMDDIHEURIADAU – DIM

1. COFNODION PWYLLGOR 21.01.2020 – Cynigwyd yn gywir gan Gwyn Davies ac eilwyd gan Sioned Jones
2. DATGAN BUDDIANNAU – DIM

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION
   a) Neuadd Fach – Holi Ela Williams a yw'n bosib cael arian o Gronfa Melinau Gwynt Brenig I wneud y gwaith atgyweirio.
   b) Parc Chwarae – Holi y Cyngor am brisiau eitemau I'r Cae Chwarae a ceisio am Grant Brenig.
4. SWYDD Y CLERC – Cadarnhawyd bod Rhian Ellis wedi ymrymeryd a swydd y Clerc ers mis Hydref 2019 a bod y cyflog blynyddol yn cael ei gadarnhau yn £1500 y flwyddyn. Bydd y cyflog cyntaf yn ddyledus am flwyddyn a hanner ym mis Mawrth 2021. - Cynigwyd a chadarnhawyd gan Glenydd Evans a Gwyndaf Jones gyda phawb yn cydweld.
5. HMRC – Penodwyd Cwmni Iona Edwards Llanrwst I wneud y gwaith HMRC am y swm o £50 y flwyddyn.
6. ADRODDIAD YR ARCHWILIAD 2018-2019 a 2019-20 – Adroddwyd yn ol ar yr archwiliad a mae adroddiad llawn I'w gael gan y Clerc.
7. YSWIRIANT – Nodwyd ein bod wedi talu yswiriant ZURICH ar y Neuadd Fach a'r cwt Hers.
8. CYLLIDEB – Nodwyd bod y gyllideb 20-21 yn debyg iawn I'r gyllideb blaenorol.
9. CYFRIFON – Cynigwyd gan Glenydd Evans ac eilwyd gan Sioned Jones gyda phawb yn cytuno I dalu yr anfonebau isod.

   Clwb Cemig £200 s137, I.N Ferguson £516 s137. Unllais Cymru £78 s137, Unllais Cymru £194.40 s137, Cyngor Conwy £480 s137. Capel y Waun £80 s137, Zurich £676. S150.
10. NEUADD FACH
11. CYNLLUNIO
12. CYNRYCHIOLWYR NEWYDD – Daeth enw 2 ymgeisydd I fod yn aelodau o'r pwyllgor, sef Carwyn Edwards a Llyr Jones. Mae aelodau o'r Cyngor yn derbyn y ddau yn

unfrydol I fod yn aelodau o Gyngor Bro Llangwm a Dinmael gan eu gwahodd I’r pwyllgor nesa’.

UNRHYW FATER ARALL

Atgoffa pawb fod y bin compost brown ar gael.

Nodwyd bod giat ar lwybr troed sydd yn mynd o Gellioedd drwy Hendre Garthmeilio lawr am Langwm gyda clo arno – y Clerc I gysylltu gyda’r Sir I holi a yw y perchenog yn cael cloi y giat

Y Clerc I gysylltu gyda Llywodraeth Cymru I nodi bod yna dwll yn y ffordd ar yr A5 rhwng Moelfre Fawr a  Hendre Arddwyfan.

Y Clerc I gysylltu gyda Llywodraeth Cymru I dynu sylw bod cerrig clo y wal yn y gilfan wrth Arddwyfan wedi disgyn.

Angen I’r Clerc edrych fewn I berchnogaeth y Neuadd Fach

Y Clerc I anfon llythyr o ddiolch I aelodau yr Aelwyd a Ffermwyr Ieuainc am gynnig eu hamser yn ystod COVID 19 I fynd I siopa  a helpu aelodau o’r gymuned.

PWYLLGOR NESAF – MEDI 22AIN am 7 o’r gloch.